PDF Complete
Your complimentary use period has ended. Thank you for using PDF Complete.
Click Here to upgrade to Unlimited Pages and Expanded Features

D DŴR BRYCHEINIOG 2009

Dan nawdd Amgylchedd Cymru

Cynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog

CRYNODEB GWEITHREDOL

- Dioddefodd y llygoden ddŵr (*Arvicola terrestris*) , rhywogaeth a fu unwaith yn gyffredin a helaeth ei dosbarthiad, un o'r dirywiadau mwyaf cyflym a difrifol o unrhyw famal gwyllt Prydain yn ystod yr ugeinfed ganrif.
- Cofnodwyd y llygoden ddŵr fyw ddiwethaf ym Mrycheiniog yn 2001. Credwyd ei fod yn bosib bod llygod dŵr yn byw o hyd yn rhai o'r ardaloedd tir-uchel mwy anghysbell yn yr is-sir.
- Yn dilyn cais llwyddiannus am arian i Amgylchedd Cymru, ymgymerodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog ag arolwg o gymaint o leoliadau â phosib yn yr ucheldir trwy gan hyfforddi gwirfoddolwyr i gynnal arolygon o lygod dŵr.
- Arweiniodd Dr Dan Forman o Brifysgol Abertawe ddiwrnod o hyfforddiant ar chwilio am arwyddion o'r llygoden ddŵr yng nghanolfan Adar Gwyllt a Gwlyptir, Llanelli. Mynychwyd yr achlysur gan ddau wirfoddolwyr ar hugain.
- Arolygwyd cyfanswm o ddeuddeg safle yn yr ucheldir.
- Ar fwyafrif y safleoedd, roedd y mwyafrif o'r dystiolaeth a gafwyd am bresenoldeb mamaliaid bychain ar ffurf geudai neu garthfeydd a gwalau a thwneli mewn llystyfiant a briodolwyd yn bennaf i bresenoldeb llygod y gwair.
- Ar un safle yn unig y cafwyd arwyddion o lygod dŵr (carthfeydd, gwalau a llystyfiant deintiedig), sef Llyn Carw yng ngogledd yr is-sir (heb ei gadarnhau hyd yn hyn).
- Roedd y tywydd, argaffaeledd gwirfoddolwyr a lleoliadau anghysbell y safleoedd yn yr ucheldir bob un yn ffactorau cyfyngol ar arolygon am lygod ddŵr.
- Golygodd anawsterau arolygon yn yr ucheldir bod pob un o'r leoliadau heb eu hastudio'n ddigon manwl i ddiffinio absenoldeb llygod dŵr.
- I gael gwell syniad, dylid ymweld â phob safle mwy nag unwaith, yn enwedig yn ystod y tymor epilio pan fyddai niferoedd y llygod dŵr a'u gweithgareddau ar eu hanterth.

Your complimentary use period has ended. Thank you for using PDF Complete.
Click Here to upgrade to Unlimited Pages and Expanded Features

…g yn cadarnhau absenoldeb llygod ddŵr o'r ardaloedd …ion, ond, yn hytrach, dim ond absenoldeb arwyddion.

- Mae angen gwaith arolwg pellach er mwyn sefydlu gyda rhywfaint o sicrwydd presenoldeb neu absenoldeb llygod y dŵr yn yr ucheldir. O bosib, byddai'n fwy effeithiol i gynnal y gwaith hwn gan ddefnyddio modelu rhagfynegol ar sail data cynefinol ac ecolegol llygod dŵr sydd ar gael eisoes er mwyn dod o hyd i'r lleoliadau mwyaf tebygol o gynnwys llygod dŵr ac yna cynnal arolygon yn y maes.